Atodiad 2

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd 2022-31**

**Crynodeb a dadansoddiad o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad**

Deilliant 1

1. Dim digon o fanylion am y targedau a nodir yn Neilliant 1 a sut y cânt eu cyflawni

   **Mae targedau ar gyfer Deilliant 1 wedi'u hamlinellu yn y duedd a oedd ar gael ochr yn ochr â'r cynllun drafft yn ystod yr ymgynghoriad ac mae wedi'i atodi i'r fersiwn derfynol gyda chyfeiriadau at ddata perthnasol. Darperir rhagor o fanylion am y camau gweithredu mewn cynlluniau gweithredu i alluogi cyflawni'r strategaeth yn rhan olaf 2022.**

2. Diffyg manylion ynghylch datblygu gofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol ac amserlenni ar gyfer datblygu gan gynnwys cynyddu'r cynnig Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg.

   **Mae'r ADGP yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, i'w gyflwyno ym mis Mehefin 2022, yn adolygu digonolrwydd gofal plant ledled Caerdydd. Bydd canlyniad hwn yn cael ei ymgorffori yn y gwaith o gynllunio camau gweithredu'r CSCA fel y bo'n briodol i ddangos tystiolaeth a chadarnhau'r cynllunio ar gyfer twf dros y 5 a'r 10 mlynedd nesaf.**

3. Diffyg cynllun marchnata i hyrwyddo lleoedd ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth. Byddai hyn yn cynnwys datblygu cynllun marchnata amlieithog i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg neu ddatblygu rôl llysgenhadon addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y cymunedau hynny.

   **Ni all data meintiol ond dweud cymaint wrthym ynghylch pa fath o hyrwyddo a fydd yn cefnogi twf, yn enwedig mewn rhai amgylchiadau. Fel y nodir yn y CSCA, mae Caerdydd yn awyddus i geisio ymgysylltu â theuluoedd ar lefel bersonol i sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed ac i ategu'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn llywio ein gwaith hyrwyddo yn y dyfodol a sicrhau y bydd yn cael yr effaith fwyaf ystyrlon gyda chynnig y mae teuluoedd yn ei ddeall yn llawn ac eisiau ymgysylltu ag ef.**

   **Byddai disgwyl i hyn gynnwys cynhyrchu adnoddau hyrwyddo priodol, strategaeth gyfathrebu bwrpasol, astudiaethau achos, rhannu profiadau a chyflawniadau rhieni a disgyblion ac ati;**

4. Dylid sicrhau bod y wefan a'r Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni yn gytbwys yn eu gwybodaeth e.e. beth am adolygu trefn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ar y rhestr ysgolion? Wrth restru ysgolion yn ei llawlyfr i rieni, mae'r Sir wedi gosod yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ar y gwaelod ers 20 mlynedd. Mae gosod ysgolion CC ar y brig yn newid bach ond yn ddull effeithiol o dynnu sylw at y ddarpariaeth Gymraeg.

   **Mae ysgolion wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor ar hyn o bryd, sydd wedi arwain at y rhai sydd â'r enw 'Ysgol' ymhellach i lawr y rhestr. Byddwn yn parhau i weithio gyda pherchnogion cronfeydd data a chydweithwyr ynghylch gwybodaeth sydd ar gael mewn cronfeydd data perthnasol i sicrhau bod gwybodaeth yn weladwy ac yn hygyrch i rieni mewn modd lle mae'n haws dod o hyd i ysgolion cyfrwng Cymraeg.**

5. Dylid darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a manteision addysg cyfrwng Cymraeg / dwyieithrwydd i weithwyr rheng flaen y Cyngor (adran Derbyn i Ysgolion, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, rhaglenni fel Dechrau'n Deg);

   **Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ar hyn fel rhan o'r gwaith o ddatblygu pecyn gwybodaeth a sicrhau bod staff rheng flaen yn gwbl ymwybodol o'r deunydd hyrwyddo a'r dystiolaeth y tu ôl iddo. Mae staff Cyngor Caerdydd yn ymgymryd â Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith fel rhan o'u cyfnod sefydlu a'u datblygiad proffesiynol parhaus**.

6. Dylid sicrhau bod gwybodaeth ar gael i asiantau tai ac asiantaethau rhentu yn yr ardal i'w rhoi i deuluoedd sy'n symud i mewn e.e. ar ffurf pecyn croeso.

   **Yn gyson â'r ymateb ym mhwynt 3, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chydweithwyr yn Caerdydd Ddwyieithog a'n partneriaid ynghylch gwybodaeth sydd ar gael i ac sy'n cael ei rhannu â theuluoedd sy'n symud i Gaerdydd a/neu sy'n adleoli o fewn yr awdurdod.**

**7.** Awgrym y dylai'r ddogfen adlewyrchu'r data cyfredol ar "fesur y galw" mewn cymunedau amrywiol, cynnig cynllun ymestyn mewn ardaloedd o gapasiti cyfyngedig a sicrhau cynnig estynedig mewn ardaloedd newydd.

   **Fel y nodwyd mewn ymateb i bwynt 1, dangosir y data cyfredol yn y ddogfen tueddiadau a oedd ar gael ochr yn ochr â'r drafft. Mae hon wedi'i hatodi i fersiwn derfynol y cynllun i wneud y croesgyfeirio'n gliriach. Bydd rhagor o wybodaeth am y galw am ofal plant ac addysg gynnar yn cael ei hadlewyrchu yn yr ADGP sy'n mynd rhagddo a bydd yn rhan o waith ymchwil mewn ardaloedd/grwpiau lle mae niferoedd llai yn manteisio ar gyfleoedd er mwyn sbarduno'r galw. Bydd cynlluniau gweithredu sy'n benodol i dwf yn seiliedig ar y data hwn yn cael eu datblygu ac yn barod i gefnogi'r broses weithredu erbyn mis Medi 2022.**

8. Dylai'r cynlluniau edrych ar ehangu'r ddarpariaeth mewn ardaloedd o amddifadedd gan fod addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn cynnig symudedd cymdeithasol gwerthfawr a gwerth ychwanegol i blant a phobl ifanc mewn ardaloedd o amddifadedd.

   **Y cynllun yw ehangu'r ddarpariaeth mewn ardaloedd lle tybir ei bod yn llai hygyrch ar hyn o bryd a lle mae'r galw wedi bod yn is yn draddodiadol neu lle mae angen annog pobl i fanteisio ar leoedd yn lleol. Mae dealltwriaeth fanwl o'r hyn y mae cymunedau'n ei ddeall a'i eisiau o addysg yn hanfodol cyn y gellir sefydlu darpariaeth ychwanegol gan y bydd hyn yn llywio lle y gellir lleoli darpariaeth gynaliadwy yn effeithiol.**

9. Nid yw gwybodaeth am gyllid dibynadwy sydd wedi'i flaenoriaethu a'i glustnodi'n benodol i warantu mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion wedi'i chynnwys, na lleoliadau penodol a nodwyd i sefydlu darpariaeth feithrin i fodloni anghenion teuluoedd ar draws y brifddinas yn ystod oes y Cynllun.

   **Byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y Blynyddoedd Cynnar i helpu i sefydlu darpariaeth bellach sy'n ystyried canlyniadau ymchwil gyda rhieni a thrwy'r ADGP ynghyd â mewnbwn gan bartneriaid ynghylch lle gellid sefydlu lleoedd ychwanegol hyfyw mewn ffordd gynaliadwy sy'n tyfu'r ddarpariaeth yn effeithiol heb**

**beryglu'r cynnig presennol. Byddwn yn ceisio nodi cyllid pellach y tu hwnt i grant cyfalaf i helpu i sefydlu darpariaeth feithrin CC ar safleoedd ysgolion.**

10. Angen rhoi mwy o bwyslais yn y Cynllun ar integreiddio â'r sector iechyd. Ffurfio partneriaeth ragweithiol a chadarn gyda'r Bwrdd Iechyd fel partner blaenllaw ac allweddol wrth gyrraedd rhieni newydd; gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu hyfforddiant i fydwragedd ac ymwelwyr iechyd a dod o hyd i ffyrdd o rannu negeseuon cadarnhaol mewn modd cyson a chynhwysfawr; cynnwys manylion am Addysg CC mewn pecynnau beichiogrwydd ar gyfer mamau newydd. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus mewn ardaloedd yn y De-ddwyrain lle mae llyfrynnau penodol wedi'u cynnwys wrth "gadw lle", sef apwyntiad swyddogol cyntaf y fam gyda'r fydwraig, ar tua 8-10 wythnos;

    **Rydym eisoes yn gweithio gyda'r sector iechyd a phartneriaid eraill i roi gwybodaeth i rieni. Fodd bynnag, fel rhan o'r adolygiad o hyrwyddo i ysgogi'r galw, byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ynghylch y ffyrdd gorau a mwyaf effeithiol o estyn allan at rieni fel yr amlinellir yn y cynllun**

11. Gweithio'n agos gyda'r Cynllun Cymraeg i Blant.

    **Cydnabyddir bod gweithio gyda Cymraeg i Blant yn ffordd o gryfhau'r cynllun a chaiff ei adlewyrchu yn y gwaith o gynllunio camau gweithredu wrth symud ymlaen**

12. Dylid nodi cyfleoedd i gynllunio ymgyrchoedd lleol mewn rhannau penodol o'r sir i ymateb i'r heriau/datblygiadau arfaethedig yno.

    **Yn gyson â phwynt 3, mae hyn yn unol â bwriad y cynllun. Darperir rhagor o fanylion mewn cynlluniau gweithredu.**

13. Byddem hefyd yn annog y Sir i gyfeirio rhieni at y wefan www.welsh4parents.cymru sy'n ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth a chymorth i rieni a disgyblion;

    **Rhoddir ystyriaeth i'r ffordd orau o gyflawni hyn yn ystod y cam manwl o gynllunio camau gweithredu.**

14. Awgrymwn fod angen ystyried creu 'Ap' (neu fanteisio ar adnodd Cyngor presennol) i ddarparu llwyfan hawdd a hygyrch ar gyfer rhannu gwybodaeth a negeseuon, casglu barn, ac ati.

    **Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ynglŷn â'r ffyrdd gorau a mwyaf effeithiol o estyn allan at rieni, fel yr amlinellir yn y cynllun, mewn ffordd sy'n effeithiol ac a gefnogir gan adnoddau priodol i sicrhau bod y wybodaeth yn ymatebol ac yn cael ei diweddaru.**

15. Mae angen llunio Cynllun Gweithredu manwl, fel rhan o waith is-grŵp hyrwyddo’r Fforwm Addysg Gymraeg, ac i hynny ffurfio elfen anhepgor o'r Cynllun 10 mlynedd.

    **Gwneir hyn ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo i alluogi gweithrediad o ran olaf 2022**

Deilliant 2

16. Pryderon ynghylch y datganiad i 'gynnal capasiti' yn hytrach nag ymestyn neu agor darpariaeth newydd gyda'r cynlluniau ynghylch ehangu gan 8DM (gan gynnwys y 4DM a gynllunnir yn y 5 mlynedd gyntaf) heb ddigon o eglurder na gwybodaeth am amserlenni a sut y bydd unrhyw ddarpariaeth newydd yn gynaliadwy.

**Prif fwriad y cynllun yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl ac mae cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg yn rhan allweddol o hyn. Fodd bynnag, mae'r duedd o ran amcanestyniadau cyfradd genedigaethau yn dangos crebachiad yn nifer y disgyblion a fydd o oedran dechrau ysgol yn ystod cyfnod y cynllun hwn. Rydym yn cydnabod y gall twf yn y sector drwy ysgolion newydd roi pwysau ar y ddarpariaeth bresennol oherwydd gostyngiad yn y niferoedd, a byddai ehangu'n rhy gyflym, a thrwy hynny beryglu hyfywedd y ddarpariaeth bresennol, yn wrthgyferbyniol i gyflawni'r nod o dwf cyffredinol y Gymraeg. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried sicrhau bod unrhyw leoedd ychwanegol yn cefnogi twf yn ogystal â chynnal y nifer sy'n manteisio ar y darpariaethau presennol i sicrhau cynnydd gwirioneddol yn yr unigolion sy'n elwa o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn hytrach na dim cynnydd ond gwasgariad ar draws mwy o leoliadau.**

**17.** Ni ddarperir digon o wybodaeth am y cymorth y bydd y Sir yn ei ddarparu wrth i ysgolion dwyieithog a chyfrwng Saesneg ystyried pontio ar hyd y continwwm iaith yn unol â'r canllawiau anstatudol ar gategoreiddio arfaethedig ysgolion yn ôl darpariaeth iaith Gymraeg. A fyddai'r Sir yn gallu cefnogi ysgolion dwyieithog a chyfrwng Saesneg yn fwy cadarn wrth iddynt ystyried symud ar hyd y continwwm ieithyddol fel rhan o'r broses bontio yn unol â'r canllawiau anstatudol o gategoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y tymor canolig a'r hirdymor?

**Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ei chanllaw ar gategoreiddio ysgolion ar 16 Rhagfyr 2021. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor a'i bartneriaid i lywio'r gwaith cynllunio trefniadaeth ysgolion sy'n angenrheidiol i ymateb i'r mater a godwyd. Byddwn yn adolygu'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu cymorth i ysgolion a allai fod am bontio ar hyd y continwwm iaith. Rydym yn ceisio cefnogi ysgolion ym mha bynnag ffordd sy'n briodol er mwyn sicrhau dilyniant llwyddiannus i ymgorffori mwy o Gymraeg.**

18. Dim digon o wybodaeth benodol am sut mae cynllunio i ymateb i leoedd gwag presennol mewn ysgolion CC.

**Fel y nodir yn y CSCA a'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog, mae cynlluniau peilot wedi'u cynllunio i weithio'n ddwys gydag ysgolion lle mae llai o Gymraeg ac i geisio cael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n ymwneud â niferoedd is mewn rhai grwpiau. Bwriad y gwaith ymchwil hwn yw gweithio i ddeall yn well y ffactorau gwthio a thynnu sy'n dylanwadu ar ddewisiadau ysgol a defnyddio'r canlyniad i ddatblygu hyrwyddo targedig pwrpasol a gynllunnir i ysgogi diddordeb a lleddfu pryderon.**

19. Dylid cynnwys gwybodaeth am gynllunio strategol sy'n ddigon pwrpasol gyda'r bwriad o ddarparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion dderbyn addysg CC o fewn eu 'cymdogaeth 15 munud' ar draws y Brifddinas. Byddem yn disgwyl ymarfer mapio manwl o'r ddarpariaeth ar draws y sir, gan nodi'r ddarpariaeth bresennol a nodi bylchau. Y cam nesaf wedyn fyddai mapio sut yr eir i'r afael â'r bylchau hyn.

**Bydd y CSCA yn cyd-fynd â'n dogfennau strategol eraill ar gyfer cynllunio lleoedd ysgol ledled y ddinas. Gellir cyrraedd y mwyafrif helaeth o ardaloedd yng Nghaerdydd o fewn 15 munud gan ddefnyddio dulliau amrywiol o deithio. Fodd bynnag, mae awydd i wella dosbarthiad lleoedd a llwybrau o'r cartref i'r ysgol ymhellach er mwyn gwella gwelededd a mynediad i'r opsiynau sydd ar gael i rieni wrth ystyried dewisiadau ysgol.**

Deilliant 3

20. Rhagor o wybodaeth am gyfraddau trosglwyddo disgyblion o'r sector cynradd i uwchradd er y nodir nad yw hon yn 'broblem sylweddol'.

    **Mae gwybodaeth am y gyfradd bontio wedi'i chynnwys yn y ddogfen tueddiadau sy'n dangos bod canran y plant sy'n dod i mewn i'r sector sy'n trosglwyddo ar bwyntiau pontio allweddol ac yn cwblhau eu haddysg statudol drwy gyfrwng y Gymraeg yn gryf yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, cydnabyddir bod nifer fach yn dewis trosglwyddo allan ac mae angen rhoi sicrwydd parhaus i'r lleiafrif o deuluoedd fod eu penderfyniad i roi eu plentyn mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn un y gallant ymddiried ynddo o'r feithrinfa hyd at ôl-16.**

21. Mae nifer y disgyblion sy'n symud allan o addysg cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf. Dylid cynnwys rhagor o wybodaeth er mwyn deall y sefyllfa'n well er mwyn cynllunio a chymryd camau i geisio lleihau'r duedd.

    **Mae ysgolion wedi ymateb i bryderon rhieni, gan gefnogi caffaeliad iaith eu dysgwyr drwy 'sesiynau dal i fyny'. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno ymyriad peilot i ymateb i'r pryderon hyn, gan ddarparu cymorth drwy uned trochi Cymraeg Caerdydd. Mae ysgolion wedi ymateb i bryderon a'r angen i gefnogi caffaeliad iaith yn fewnol yn ogystal â sicrhau atgyfeirio priodol i beilot ymyrryd yr uned trochi Cymraeg sydd ar waith ar hyn o bryd fel ymateb i'r heriau a brofwyd. Ni wyddwn eto a fydd hyn yn tawelu meddyliau plant a rhieni i atal colled bellach. Bydd strategaethau pellach yn cael eu hystyried a/neu'r mesurau presennol yn cael eu cryfhau a'u hehangu fel y bo'n briodol yn dilyn gwerthusiad a byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr ar draws y sector gan gynnwys partneriaid consortiwm i sicrhau bod teuluoedd, lle bynnag y bo modd, yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn hyderus y bydd eu plentyn yn ffynnu drwy gyfrwng y Gymraeg.**

22. Diffyg manylion ynglŷn â defnyddio un o safleoedd ysgol uwchradd y CDLl i gynyddu nifer y lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn awgrymu efallai nad yw'r ddarpariaeth yn un cyfrwng Cymraeg ac y gallai fod yn ddwyieithog/dwy iaith. Hoffai MM weld hyn yn mynd ymhellach.

    **Mae bwriad cadarn i gynyddu lleoedd addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg o fewn y CSCA i ddarparu ar gyfer y niferoedd presennol sydd eisoes wedi dewis addysg cyfrwng Cymraeg ar ddechrau eu haddysg gynradd ac i sicrhau bod darpariaeth ar gyfer y twf a ragwelir dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau bod llwybr addysg gweladwy o enedigaeth i oedolaeth sy'n cefnogi rhieni i wneud eu penderfyniadau ar gyfer addysg eu plentyn/plant o'r cychwyn cyntaf. Mae twf cynaliadwy'r sector yn hanfodol ynghyd â sicrhau bod gweithlu sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol mewn lle i gyflawni'r safonau uchel yr ydym wedi arfer â hwy yng Nghaerdydd wrth i nifer y lleoedd gynyddu. Byddai unrhyw ddefnydd o'r safleoedd CDLl a gynigir yn destun ymgynghoriad statudol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r ymrwymiad i ddarpariaeth uwchradd ychwanegol yn glir - bydd yr union leoliad(au) i gyflawni'r ehangu hwn yn cael eu hystyried ymhellach yn unol â'r canllaw hwn.**

23. Sonnir am ehangu'r ddarpariaeth drochi gynradd (ac uwchradd), ond nid oes cynllun na strategaeth ar gyfer hyrwyddo'r ddarpariaeth hon yn rhagweithiol ymhlith y boblogaeth

oedran cynradd nac ymhlith rhieni presennol i ddenu hwyrddyfodiaid sy'n newydd i'r ddinas ac o fewn y ddarpariaeth bresennol.

**Rydym yn ymfalchïo yng nghryfder y model trochi a'n staff sy'n ei gyflwyno yng Nghaerdydd er budd disgyblion Caerdydd ac amrywiaeth o blant a phobl ifanc o awdurdodau cyfagos. Rydym yn parhau i weithio i sicrhau bod plant o bob gallu yn cael eu cefnogi i ffynnu drwy gyfrwng y Gymraeg waeth pryd y byddant yn dechrau eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ysgolion wedi bod yn allweddol wrth gefnogi caffaeliad iaith disgyblion ac o fewn y sector uwchradd edrychwn ymlaen at dreialu'r cynlluniau peilot 'trochi dal i fyny' ar gyfer caffaeliad iaith eleni. Ar hyn o bryd mae'r Uned Drochi hefyd yn cefnogi disgyblion o awdurdodau lleol cyfagos ac mae wrthi'n eu cefnogi i ddatblygu eu darpariaethau eu hunain i gefnogi twf ehangach dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd camau gweithredu pellach sy'n benodol i dwf strategol y ddarpariaeth a hyrwyddo'r gwasanaethau'n effeithiol yn cael eu nodi yn y cynlluniau gweithredu.**

24. Eisiau gweld mwy o gyfathrebu â theuluoedd am CC i fynd i'r afael ag effaith y pandemig

    **Yn unol â'r pwynt uchod, byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion i gefnogi teuluoedd a chyfathrebu am gyfleoedd sydd ar gael a allai gefnogi caffaeliad iaith yn unol ag oedran, cyfnod, pynciau cwricwlwm. Mae RhAG hefyd yn datblygu safle i gynnig atgyfeiriadau pellach i rieni at gymorth.**

25. Dylai gynnwys gwybodaeth benodol am sut y gallai ymarferwyr arbenigol yn yr Uned Drochi ehangu ar athroniaeth a thechnegau trochi iaith gydag ymarferwyr mewn ysgolion dwyieithog a chyfrwng Saesneg - byddai'n cryfhau nodau'r Deilliant hwn.

    **Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau fel rhan o'r cynllun peilot presennol, gyda hyfforddiant yn cael ei ddatblygu i'w weithredu gan staff yr uned trochi Cymraeg yn Nhymor y Gwanwyn 2022 i athrawon ysgolion Caerdydd. Bydd hyn yn cefnogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddull a thechnegau'r model Trochi Cymraeg. Datblygwyd hyn gan ddefnyddio'r arian grant a sicrhawyd gan Lywodraeth Cymru, yr ydym yn disgwyl iddo gael ei gynnig eto yn y dyfodol fel rhan o raglen hyfforddi Caerdydd. Yn dilyn gwerthusiad, byddem yn disgwyl cynyddu cyrhaeddiad y wybodaeth arbenigol ymhellach er budd cynulleidfa ehangach o fewn gweithlu addysgu a dysgu Caerdydd.**

26. Awgrym am ragor o fanylion am waith y Gwasanaeth Ieuenctid o ran gwella cyfleoedd i ddefnyddio a gwella sgiliau Cymraeg o fewn y gwasanaeth.

    **Mae rhagor o wybodaeth am ehangu nifer ac ystod y gweithgareddau a gwasanaethau ieuenctid cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd wedi'i nodi yn y cynllun ac ymhelaethir arni ymhellach yn y cynlluniau gweithredu manwl o dan Ddeilliant 5.**

27. Mae angen mynd i'r afael â llwybrau dilyniant i'r chweched dosbarth / colegau Addysg Bellach ac wedi hynny, lle y bo'n berthnasol, i brifysgolion a'r byd gwaith, felly mae angen i'r cynllun roi ystyriaeth lawn i gyfraniad darparwyr ôl-16 a chyfleoedd prentisiaeth at lwyddiant y cynllun, gyda thargedau dilyniant wedi'u nodi'n glir.

**Gyda datblygiad posibl y Comisiwn Addysg Drydyddol (CADY) dros y 10 mlynedd nesaf edrychwn ymlaen at y cyfleoedd y byddai newid graddol o’r fath yn eu hwyluso mewn addysg ôl-16 yng Nghaerdydd, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe bai rheoleiddiwr newydd yn cael ei roi ar waith i gwmpasu'r rhan fwyaf o'r dirwedd ôl-16, byddem yn ceisio gweithio gydag ef a phartneriaid i gefnogi, fel y bo'n briodol.**

28. Cais am ragor o fanylion o ran darpariaeth addysg ôl-orfodol a thargedau cysylltiedig

    **Darperir rhagor o fanylion penodol am addysg ôl-orfodol a thargedau a gynorthwyir yn y cynlluniau gweithredu.**

29. Byddai darparu mwy o wybodaeth am gefnogi ymarferwyr mewn ysgolion dwyieithog a chyfrwng Saesneg fel y gallant hwythau hefyd efelychu athroniaeth a thechnegau trochi iaith yn gynyddol effeithiol tra'n dysgu Cymraeg fel iaith ychwanegol yn gam cadarnhaol ac yn cryfhau'r Cynllun.

    **Gellir rhoi manylion am y cyllid trochi yn y sector uwchradd ar gyfer uwchsgilio**

30. Cais am ddata parthed: pontio/cadw,
    a) byddai cynnwys cerrig milltir sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol am sut y bydd y Sir yn monitro, gwerthuso ac adolygu'r nodau yn y byrdymor a'r tymor canolig yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol wrth iddynt fynd ati'n bwrpasol i gyflawni eu cynlluniau hirdymor.
    b) Er mwyn cael gwell darlun o'r sefyllfa ledled y sir, byddai'n dda cael union ffigurau a chanrannau pob un o'r ysgolion cynradd sy’n bwydo i mewn i'r sector uwchradd, gan nodi systemau a phatrymau pontio’r clystyrau ysgol.

    **Mae gwybodaeth am niferoedd a throsglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi'i rhannu â phartneriaid y Fforwm Addysg Gymraeg i lywio'r gwaith o ystyried a datblygu'r cynlluniau peilot presennol sydd bellach ar y cam gweithredu. Bydd yr holl ddata ynghyd â gwerthusiadau'r cynlluniau peilot yn cael eu hystyried wrth ddatblygu cynllun gweithredu i gefnogi datblygiad yn y dyfodol gan gynnwys cerrig milltir a sut y byddwn yn monitro, gwerthuso ac adolygu nodau.**

31. Byddai dadansoddiad daearyddol o ddarpariaethau uwchradd y Sir yn ddefnyddiol i weld i le mae'r niferoedd cynradd yn bwydo ar hyn o bryd. Byddai nodi unrhyw fylchau wedyn yn helpu i gynllunio ymhellach drwy gydol y Cynllun hwn.

    **Gellir gweld y dalgylchoedd cynradd ac uwchradd ar wefan y Cyngor ac fe'u hystyrir yn rheolaidd wrth ddatblygu cynlluniau trefniadaeth ysgolion. Rhoddir ystyriaeth bellach i ffordd gliriach o gysylltu'r wybodaeth hon er mwyn gwneud y cynllunio'n fwy tryloyw i'r cyhoedd ehangach - bydd hyn yn cael ei drafod fel rhan o'r broses o gynllunio camau gweithredu.**

32. Beth yw'r strategaeth bresennol i hyrwyddo cyfleoedd trochi i hwyrddyfodiaid? Mae angen rhoi gwybod i rieni fod opsiwn arall ar gael iddynt ac i hynny gael ei rannu'n eang. Mae hyn yn arbennig o wir am deuluoedd sydd am gofrestru plentyn iau mewn ysgol cyfrwng Cymraeg lle mae brawd neu chwaer hŷn yn mynychu ysgol cyfrwng Saesneg.

**Ymdrinnir â'r strategaeth i hyrwyddo cyfleoedd trochi i hwyrddyfodiaid a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg i gefnogi mynediad i'r Gymraeg i bob disgybl yn yr ymatebion i Bwyntiau 3, 17, 22 a 24.**

**33.** Wrth edrych ar ffyrdd o ysgogi twf yn y dyfodol, bydd yn hanfodol edrych ar sut y caiff y ddarpariaeth hon ei hyrwyddo, ac yn naturiol bydd angen edrych ar ffyrdd o ehangu a chynyddu'r ddarpariaeth maes o law.

**Dyma fwriad y Cynllun. Gweler yr ymatebion i bwynt 3 ac 17 uchod.**

**34.** Mae'r Cynllun yn sôn am 'ddefnyddio o leiaf un o safleoedd y CDLl i gynyddu lleoedd uwchradd.' Ond mae'n ymddangos na fydd dim yn cael ei wneud tan ddiwedd cyfnod y Cynllun. Mae gadael hyn tan ddiwedd y Cynllun yn gamgymeriad.

**Ni fydd hyn ar ddiwedd y cynllun ond yn ystod yr ail 5 mlynedd. Mae'r iaith wedi'i mireinio i adlewyrchu hyn. Gweler pwynt 21 uchod.**

**35.** Mae angen sefydlu system i fonitro'r sefyllfa – mae awdurdodau eraill wedi sefydlu Grŵp Ffocws i edrych ar sefyllfa Niferoedd Disgyblion i wireddu Deilliant 3 – a yw hynny'n cynnig ffordd ymlaen i Gaerdydd?

**Rhennir y wybodaeth hon gyda phartneriaid y Fforwm Addysg Gymraeg. Trafodir a fyddai budd i gael is-grŵp penodol i edrych ar hyn fel rhan o'r ddatblygiad y gwaith o gynllunio camau gweithredu yn Neilliant 3.**

<u>Deilliant 4</u>

36. Amryw bryderon fod y cyrsiau Ôl-16 yn annigonol, yn anaddas ac yn anymarferol ar draws y ddinas ar eu ffurf bresennol a bod angen rhoi sylw dybryd i'r maes. Mae'r diffyg opsiynau presennol yn cael effaith negyddol ar y niferoedd sy'n dewis parhau i ddilyn cyrsiau ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg. Angen nodi'r diffygion yn ogystal â sut i fynd i'r afael â'r bwlch addysgol hwn drwy gyfrwng y Gymraeg. Awgrymwyd bod angen cynllun bwriadol yn y maes hwn gan gynnwys cydweithio effeithiol â Cymwysterau Cymru i sicrhau bod cymwysterau ar gael, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol, a gynigir i ddisgyblion o 14 oed, ynghyd ag ystyried yr elfen waith ar draws ysgolion a rhagor o fanylion am bwy fydd yn arwain datblygiad ynghyd â phwy/sut y bydd yn monitro cynnydd o ran sicrhau gwelliant.

**Bydd gan y fframwaith prentisiaeth newydd a gyhoeddwyd fel rhan o'r Bil Addysg Drydyddol rôl i'w chwarae hefyd o ran sicrhau bod llu o opsiynau hyfforddi ar gael yn y Gymraeg o fewn addysg ôl-orfodol. Rydym yn cydnabod bod darparu cymwysterau'n mynd drwy gyfnod o newid sylweddol yng Nghymru a'r DU yn ehangach. (Cwricwlwm newydd, dileu BTECs yn raddol a chyflwyno Lefel T yn Lloegr a fydd yn cael effaith ddilynol ar argaeledd cyrsiau gan fyrddau arholi yn Lloegr ac rydym yn aros am eglurder ynghylch a fydd CBAC neu ddarparwyr eraill yng Nghymru yn ymgymryd â chynnig o'r fath).**

**Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ac ysgolion y Consortiwm i gefnogi trafodaethau cadarn gyda Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru i sicrhau tystiolaeth gref o angen a dylanwad priodol ar ddyfodol cymwysterau ôl-16 a galwedigaethol ehangach drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn annog ysgolion i**

**archwilio partneriaethau dyfnach a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfleoedd pellach i ehangu eu cynnig i bobl ifanc ôl-16, ar y cyd â darparwyr lleol eraill**

37. Awgrym y dylid cynnal ymchwil i ddewis iaith myfyrwyr cyn-16 ac ôl-16 ac edrych yn fanwl ar lwybrau gyrfa posibl i'r carfanau hyn i fodloni anghenion a chau'r bwlch mewn cyfrwng iaith gyda rhaglenni astudio partneriaeth cyfrwng Cymraeg wedi'u cynllunio ar y cyd rhwng darparwyr i ehangu sgiliau Cymraeg o fewn y gweithlu ifanc. Tynnodd MM sylw at y rhaglen Cam Wrth Gam.

    **Gwnaed cynnydd yn y maes hwn drwy ddarparu ffeiriau gyrfaoedd ar-lein drwy Caerdydd Ddwyieithog sy'n ymwneud yn benodol ag ehangu ymwybyddiaeth o yrfaoedd lle mae galw am siaradwyr Cymraeg rhugl ynghyd â chyfleoedd ehangach i ddefnyddio'r iaith er budd dilyniant gyrfa.**

    **Rydym yn bwriadu gweithio ymhellach gyda phartneriaid gan gynnwys Addewid Caerdydd, Caerdydd Ddwyieithog, a darparwyr addysg i gryfhau ymgysylltiad ac ystyriaeth o lwybrau gyrfa posibl ynghyd â sut i gynyddu nifer y plant sy'n ymgysylltu â mwy o amlder ac o sbectrwm oedran eang. Rydym yn annog ac yn croesawu darparwyr sy'n cydweithio i gynllunio rhaglenni astudio. Gyda'r cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno yn 2022 byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr mewn ysgolion i nodi unrhyw batrymau neu newidiadau i ddewisiadau pwnc disgyblion.**

38. Dylai fod gan Gaerdydd gyd-drefniant hyrwyddo lleol gweithredol rhwng ysgolion a phartneriaethau eraill sy'n pwysleisio'r angen am siaradwyr Cymraeg rhugl sydd wedi'u hyfforddi mewn sectorau sgiliau penodol, gan gyfeirio'n benodol at yrfaoedd a llwybrau dysgu (prentisiaethau canolog) mewn gofal, gofal plant, addysg feithrin, gweinyddu a chymorth, cymorth dysgu a gwasanaeth cwsmeriaid. Mae angen i'r Cyngor arwain ar y gwaith hwn, fel prif gyflogwr yr ardal, ac ysgwyddo rôl ragweithiol wrth hyrwyddo cyfleoedd i ymuno â'r gweithlu ar draws holl wasanaethau'r ALl.

    **Gweler pwynt 36 uchod. Mae Caerdydd Ddwyieithog eisoes yn gweithio gyda'i fforwm i hyrwyddo swyddi a phrofiad gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gwaith yn y maes gofal plant eisoes yn cael eu cynnig mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd ond rydym yn disgwyl rhoi cynlluniau gweithredu â ffocws ar waith i ehangu'r cynnig presennol i ystod oedran ehangach a chyda mwy o amlder ynghyd ag ymgorffori'r wybodaeth hon yn gliriach o fewn gweithgarwch parhaus Addewid Caerdydd.**

39. Prin yw'r targedau a'r cynlluniau yn yr adran hon i gefnogi a datblygu'r Gymraeg fel pwnc. Mae angen cynllunio pwrpasol a rhagweithiol i sicrhau bod unrhyw ddisgybl sy'n dymuno astudio'r pwnc i Safon Uwch yn cael cyfle i wneud hynny.
    Gofynnwyd am wybodaeth ar wella Safon Uwch Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

    **Byddwn yn annog ysgolion i gynnig cyrsiau o'r fath i ddisgyblion lle bynnag y bo'n ymarferol ac yn annog cydweithredu i sicrhau mynediad ar draws y ddinas. Fel rhan o'r broses o gynllunio camau gweithredu, rhoddir ystyriaeth i le mae ysgolion yn cyflawni lefelau amrywiol o niferoedd i dynnu sylw at y ffactorau dylanwadol cadarnhaol yn ogystal ag ymgymryd ag ymchwil â ffocws gyda phobl ifanc i**

**benderfynu beth y gwnaethant ei ystyried wrth ddewis opsiynau a'r hyn y credant a allai fod yn hanfodol i weld niferoedd uwch yn dewis y pwnc wrth symud ymlaen. Byddai hyn yn cynnwys ystyried sut y gallai dysgu digidol chwarae rôl wrth symud ymlaen.**

40. Mae angen nodi sut y bydd diddordeb yn cael ei danio a'i gynnal yn y pwnc ymysg disgyblion. Dylid manteisio'n llawn hefyd ar y cyfleoedd a gynigir gan y Coleg Cymraeg a phartneriaid eraill fel rhan o gynllun cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc (dan arweiniad Llywodraeth Cymru).

    **Rydym yn croesawu ymgysylltiad ein hysgolion â chynlluniau cenedlaethol fel y rhai a gynigir gan y Coleg Cymraeg. Mae gan rai ysgolion gytundebau cydweithio eisoes i alluogi disgyblion sy'n dymuno cael mynediad at Safon Uwch Cymraeg i wneud hynny ar safle arall i greu dosbarthiadau hyfyw. Mae ysgolion a phartneriaid (e.e. Consortiwm) eisoes yn cynnal ymchwil i ddiddordeb disgyblion yn y pwnc, ond bydd rôl ymchwil â ffocws gyda phobl ifanc yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses o gynllunio camau gweithredu.**

<u>Deilliant 5</u>

41. Dylai mapio, archwilio a gwerthuso cyfleoedd dysgu Cymraeg y tu allan i'r ysgol ymhlith partneriaid ledled y ddinas fod wedi digwydd cyn hyn.

    **Mae cyfeirlyfr eisoes yn bodoli ar gyfer Caerdydd; fodd bynnag, mae'r pandemig wedi effeithio ar lawer o wasanaethau ac rydym yn ymwybodol y gallai hyn effeithio ar sut/ble rydym yn canolbwyntio datblygiad wrth symud ymlaen. O'r herwydd, ystyrir bod mapio, archwilio a gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn dasg hollbwysig i ategu'r gwaith o gynllunio camau gweithredu a datblygu gwasanaethau yn y maes hwn yn y dyfodol.**

42. Dylai gyfeirio at waith da i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymhlith poblogaeth ifanc ein hysgolion hyd yma drwy ddathliadau blynyddol a chyfleoedd allgyrsiol estynedig: Tafwyl; Cynllun RhCGY; Gwasanaethau Ieuenctid; dathliadau Dinas Caerdydd a Llywodraeth Cymru.

    **Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid gynnig dwyieithog anffurfiol lle mae staff yn siarad Cymraeg. Ariennir yr Urdd drwy'r grant Arloesi Ieuenctid i gynnig darpariaeth ieuenctid mynediad agored ac mae Menter Caerdydd hefyd yn derbyn cyllid i hyrwyddo diwylliant Cymru.**

    **Wrth symud ymlaen bydd cynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu a disgwylir iddynt gynnwys darpariaethau wyneb-yn-wyneb pellach ynghyd â defnyddio llwyfannau rhithwir gan gynnwys Discord i gynnig darpariaeth Gymraeg mynediad agored gyda Swyddog Cymraeg i oruchwylio'r gwaith o ehangu'r cynnig Cymraeg.**

43. Mae angen manylion am sut y bydd y Sir yn monitro, gwerthuso ac adolygu cynlluniau Cymraeg Campus a'r Siarter Iaith a sut y bydd y ddarpariaeth hon yn hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach ymhlith dysgwyr i gefnogi cynllunio pwrpasol i fodloni anghenion Cymraeg dysgwyr sydd â lefel amrywiol o hyder a hyfedredd yn eu cymunedau lleol yng Nghaerdydd.

**Mae CCD wrthi'n adolygu ei amcanion cynllunio busnes ac yn cynnal adolygiad hunanwerthuso. Fel rhan o'r ddau weithgaredd mae gwerthusiad o'r prosiect yn cael ei gynnal. Mae CCD eisoes yn rhannu arfer effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys Twitter, gwefan CCD a chyfathrebu amrywiol.**

44. Awydd gweld llinell sylfaen a thargedau gan y Fenter Iaith leol a'r Urdd fel partneriaid Cymraeg ond hefyd gan asiantaethau a gwasanaethau allweddol eraill fel gwasanaeth ieuenctid y Sir a Chlybiau Ffermwyr Ifanc i gyfoethogi'r deilliant.

    **Byddai hyn ond yn berthnasol i'r gwasanaethau hynny a gefnogir gyda chronfeydd y cyngor. Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd â Caerdydd Ddwyieithog a phartneriaid i sicrhau cynllun gweithredu cydgysylltiedig i helpu i wireddu'r camau gweithredu a nodir yn Neilliant 5.**

<u>Deilliant 6</u>

45. Mae uchelgais y targedau sy'n ymwneud â darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg, yn enwedig o fewn y 5 mlynedd gyntaf, yn afrealistig ac nid yw'n ystyried cyflwr presennol y ddarpariaeth. Mae diffyg eglurder ynghylch sut y gellir tyfu, datblygu neu ymestyn arferion da presennol i gyflawni'r cynnydd y cyfeirir ato. Byddai hyn yn cynnwys targed/strategaeth feintiol ar gyfer datblygu'r gweithlu i fodloni'r anghenion h.y. hyfforddiant staff, amser hyfforddi neu gyfleoedd secondiad.

    Byddai'n dda nodi unrhyw fylchau mewn arbenigedd mewn meysydd penodol, ac i'r sir gynnig rhaglen hyfforddiant iaith i ymarferwyr, gan ryddhau gweithwyr o'u gwaith am gyfnod sylweddol gyda chydweithrediad y Ganolfan Dysgu Cymraeg sy'n trefnu cyrsiau o'r fath. Byddai'n fuddiol nodi amserlen i gynnal archwiliad o'r ddarpariaeth bresennol yn ogystal â sgiliau staff ac athrawon. Byddai'n dda cynnwys rhagor o fanylion am werthusiad o'r fath, gan nodi'r prif gasgliadau / argymhellion, bylchau a nodwyd a sut y byddant yn sail i gynllunio targedau ar gyfer y deilliant hwn.

    **Rydym yn ymwybodol o'r angen dybryd am staff hyfforddedig arbenigol yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gynyddol ar gyfer disgyblion ag ADY. Cydnabyddir y bydd angen blaenoriaethu hyfforddiant a chymorth uwchsgilio er mwyn sicrhau'r twf gofynnol i'r gweithlu addysgu a dysgu arbenigol rhugl ym mlynyddoedd cynnar y cynllun.**

    **Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau a byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion, Gwasanaeth Cynhwysiant Caerdydd yn ogystal â chydweithwyr yn y bwrdd iechyd i gefnogi'r cynnydd gofynnol ar draws pob maes sy'n cefnogi disgyblion ag ADY. Gofynnir am gymorth hefyd gan bartneriaid yn LlC, CGA, HCA a'r Consortiwm ynghylch y gweithlu ar draws addysg yn genedlaethol a phob oedran a sector. Caiff hyn ei nodi mewn cynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy'n benodol i gynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y weledigaeth ADY ledled Caerdydd, a amlinellir yn Neilliant 6.**

46. Nid oes cyfeiriad at y Blynyddoedd Cynnar yn yr adran hon. Byddai'n dda manylu ar lefel y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael o ran dysgwyr sy'n codi'n 3 oed yn y dosbarthiadau meithrin yn ogystal â phlant mewn darpariaethau nas cynhelir.

**O ddata’r Hunanasesiad Gwasanaeth, mae hwn yn gyfrif o 'Gyfanswm nifer y plant (o bob oed) sy'n mynychu gofal plant y nodwyd yn ffurfiol bod ganddynt anawsterau dysgu neu anableddau'. Ar y cyfan, roedd 8.2% o’r plant a fodlonodd y meini prawf mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn amrywio o 4.3% ar gyfer plant sy'n cael eu gwarchod (gyda dim ond 2.1% o'r holl warchodwyr plant yn lleoliadau cyfrwng Cymraeg), i 14.2% o'r rhai a oedd yn mynychu gofal sesiynol, gydag 11.3% o leoliadau yn CC.**

**Darperir cymorth priodol sy'n cyd-fynd â’r angen ym mhob darpariaeth a gynhelir a darpariaeth nas cynhelir a gwneir penderfyniadau ynghylch hyn gan Fforwm y Blynyddoedd Cynnar ar y cyd â'r ysgolion a'r lleoliadau.**

47. Nid yw Deilliant 6 yn ddigon uchelgeisiol o ran anelu at sicrhau cyfle ieithyddol cyfartal yn narpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y Sir. Mae angen mwy o fanylion am gynlluniau i uwchsgilio ymarferwyr arbenigol mewn lleoliadau sy'n darparu cymorth cyson i ddysgwyr ag anghenion ADY. Mae'n bwysig bod y Cynllun yn nodi sut y bydd y Sir yn anelu at ddarparu darpariaeth gyfartal yn y Gymraeg a gwasanaeth gwirioneddol ddwyieithog i ddisgyblion Caerdydd

    **Mae manylion wedi'u cynnwys yn y cynllun i adlewyrchu cynlluniau i uwchsgilio ymarferwyr. Gweler yr ymatebion i bwyntiau 45 uchod.**

48. Mae angen cynlluniau pwrpasol i ymateb a gweithredu, monitro ac adolygu nodau'r Deilliant hwn yn y byrdymor a'r tymor canolig gan nad yw'r cynllun yn darparu gwybodaeth ddigon manwl am gynllunio strategol i ehangu'r ddarpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y CSCA hwn.

    **Fel y nodir uchod, byddwn yn parhau i weithio ar y cyd â chydweithwyr yn y gwasanaeth Cynhwysiant i ddatblygu cynlluniau gweithredu priodol i weithredu'r weledigaeth ADY ledled Caerdydd.**

49. Byddai'n fuddiol nodi data a gwybodaeth fanwl i ddarparu trosolwg o'r ddarpariaeth bresennol, yn ôl meysydd penodol, a'r niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd, yn ogystal â nodi targedau mwy meintiol fel ffordd o lywio cynnydd a sicrhau bod y weledigaeth o gydraddoldeb gwirioneddol yn cael ei gwireddu. A oes digon o gapasiti yn y sector i ateb y galw? Os nad oes digon o gapasiti, beth yw'r amserlen a beth yw'r camau gweithredu i ymateb i'r sefyllfa hon?

    **Gweler pwynt 36 uchod. Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd â chydweithwyr yn y gwasanaeth Cynhwysiant i ddatblygu cynllun gweithredu (gan gynnwys cerrig milltir, partneriaid cyfrifol a chamau gweithredu manwl i weithredu'r weledigaeth ADY ledled Caerdydd unwaith y bydd cymeradwyaeth wedi'i rhoi i'r cynllun ddod i rym yn rhan olaf 2022).**

50. Gwnaeth sylwadau a godwyd drwy'r arolwg rhanddeiliaid ar-lein godi pryderon ynghylch heriau pan mae disgyblion yn dysgu mewn iaith heblaw am iaith y cartref. Cafwyd sylwadau yn awgrymu y byddai ADY cyfrwng Cymraeg ond yn briodol i blant mewn cartrefi Cymraeg eu hiaith – mwy o waith i'w wneud ar ehangu opsiynau ar gyfer pob plentyn.

    **Er y nodir y pryderon hyn, nid yw'r awgrym nad yw addysg cyfrwng Cymraeg yn briodol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn farn a gymeradwyir gan**

**Lywodraeth Cymru na Chyngor Caerdydd a'i bartneriaid. Rydym yn blaenoriaethu cynhwysiant a chyfle cyfartal ym mhob agwedd ar ein cynnig addysg. Mae awydd cryf i sicrhau bod pawb yn gallu elwa o'r cyfle i ddysgu Cymraeg a dod yn hyderus yn eu defnydd o'r iaith gydag angen cydnabyddedig i gynllunio ar gyfer hyn yn effeithiol fel bod pawb yn gallu cyflawni eu potensial dwyieithog.**

Deilliant 7

51. Dylid cyfeirio at gynlluniau sy'n bodoli eisoes i hyrwyddo llwybrau amgen at ddysgu, a gellid bod wedi cynnwys ystod ehangach o fanylion ynghylch mentrau yn y dyfodol.

    **Cydnabyddir bod amrywiaeth o gynlluniau ar waith i hyrwyddo ffyrdd amgen o ddysgu. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, hyfforddiant** i ymgymryd â rolau arwain, **ymestyn** cyfleoedd arwain o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg **ynghyd â chynnig cyfnodau secondiad i athrawon sydd â sgiliau Cymraeg i addysgu o fewn y sector cyfrwng Cymraeg. Ni ellir tanbrisio agwedd cynllunio'r gweithlu'r CSCA o ran sicrhau gweithrediad llwyddiannus. Mae'r cynllun presennol wedi'i gryfhau i adlewyrchu'r blaenoriaethau yn y maes hwn a chaiff ei ehangu ymhellach yn y cynlluniau gweithredu sy'n angenrheidiol i sicrhau bod deilliant 7 yn cael ei gyflawni.**

52. Nodir y bydd gweithio gyda phartneriaid yn bwysig i gyflawni nodau'r Deilliant hwn, er enghraifft drwy weithio gyda Swyddog Consortiwm Canolbarth y De Cymraeg mewn Addysg. Mae angen cynnwys mwy o fanylion am y cydweithrediad hwn ac eraill.

    Mae monitro datblygiad unigol ysgolion unigol a chynlluniau CSCA, er enghraifft, wedi'i nodi fel gweithgaredd arfaethedig. Mae angen egluro manylion ynghylch pwy fydd yn gwneud hyn a'r camau perthnasol a fydd yn dilyn y gweithgarwch monitro hwn yn y tymor canolig a'r hirdymor.

    **Mae cryfhau'r gweithlu addysgu yn nod y mae'n rhaid ei gefnogi/hwyluso ar lefel genedlaethol yn ogystal â lleol er mwyn gwireddu uchelgeisiau'r CSCAau ym mhob Awdurdod. Mae Consortiwm Canolbarth y De yn cynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu a rhwydweithio proffesiynol ar draws pob ysgol cyfrwng Saesneg sy'n cynnwys Datblygu'r Gymraeg i ymarferwyr, arweinyddiaeth ysgol gyfan ar gyfer y Gymraeg, cefnogaeth a chyfleoedd rhwydweithio i ymarferwyr ôl-sabothol. Adlewyrchwyd hyn o fewn Deilliant 7 CSCA, Camau Gweithredu 1, 3, 5-9**

53. Ymatebion Cyhoeddus – pryder ynghylch y baich ar lwyth gwaith addysgu a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gadw/recriwtio. 'Un agwedd bosib ar wella / cyrraedd y targed fyddai ceisio denu rhywfaint o'r dalent ragorol hon yn ôl i Gymru gyda chyfleoedd cystadleuol.'

    **Fel yr amlinellir yn y CSCA, byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod Caerdydd yn parhau i berfformio'n gadarn o ran recriwtio a chadw athrawon sy'n siarad Cymraeg.**

54. Prin yw'r dadansoddiad o'r gweithlu presennol o fewn y sector iaith Gymraeg i bennu llinell sylfaen. Awgrymwn fod cyfle yn y deilliant hwn i nodi "pwy yw'r staff addysgu". Rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried yr ystod gyflawn o'r gweithlu sy'n cefnogi addysg – gan gynnwys y staff gweinyddol yn yr ysgolion, swyddogion cymorth yn yr awdurdod lleol a'r consortiwm addysg yn ogystal â'r cynorthwywyr. Gwyddom o brofiad pa mor bwysig yw sicrhau gweithlu cynhwysfawr i gefnogi cynllun mor bwysig â'r Cynllun hwn.

**Cefnogir y farn hon a byddwn yn gweithio gyda chydweithiwr ar ddata pellach i gefnogi datblygiad y Gweithlu i gyflawni deilliant 7, yn fewnol a thrwy'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion wrth i'r data hwn ddod yn fwy sefydledig a chadarn.**

**Mae data a ddarparwyd gan LIC yn dangos bod y nifer sy'n manteisio ar y llwybrau amgen a gyflwynwyd yn ddiweddar wedi cael mwy o ddefnydd drwy gyfrwng y Saesneg.**

**Oherwydd y niferoedd isel a gynlluniwyd o dan y contract ar gyfer blwyddyn gyntaf y pynciau TAR Uwchradd Cyflogedig, nid oes rhaniad pellach yn ôl y Gymraeg a'r Saesneg wedi'i ddarparu hyd yma. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddadansoddi'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd hyfforddi athrawon newydd i archwilio a ydynt yn recriwtio i'r meysydd (pwnc a chyfrwng) lle mae'r angen mwyaf.**

55. Codwyd sawl pryder drwy'r arolwg rhanddeiliaid ar-lein fod y dull yn ymrannol yn hytrach na chynhwysol

    **Nodir y sylwadau hyn, a byddwn yn parhau i fynd i'r afael ag anghenion dinasyddion ledled y ddinas o ran Trefniadaeth Ysgolion. Fel y nodwyd yn y weledigaeth, rydym am i Gaerdydd fod yn ddinas lle gall y Gymraeg ffynnu a lle mae pobl ifanc yn cael cyfle i'w chofleidio'n llawn.**

56. Rhoddodd sawl sylw a wnaed drwy'r arolwg rhanddeiliaid ar-lein bwyslais cryf ar ddewis

    **Nodir y pwyntiau hyn. Yng Nghaerdydd mae gan deuluoedd ddewis o ran cyfrwng iaith addysg eu plant a gallant hefyd wneud cais am ddarpariaeth ffydd.**